



Eich cyf/Your ref: P-05-888
Ein cyf/Our ref: KW/06210/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

29 Mai 2019

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddedig 22ain o Fai 2019 ar ran y Pwyllgor Deisebau parthed gwneud Cymraeg Ail Iaith yn ofynol ym mhob ysgol yng Nghymru gan gynnwys ysgolion annibynnol wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Ni fydd yna wahaniaeth rhwng iaith gyntaf ac ail iaith yn y cwricwlwm newydd gan fydd dysgwyr yn gwneud Cymraeg o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Yn y Maes Dysgu a Phrofiad hwn fydd yr holl ddysgwyr yn dilyn yr un cwricwlwm ond gyda disgwqyliadau fydd yn adlewyrchu'r wahanol gyflymder a dyfnder y dysgu ar gyfer y rhai a addysgir yn bennaf trwy'r Gymraeg a'r rhai a addysgir yn bennaf trwy'r Saesneg.

Bydd y disgwqyliadau ar gyfer Cymraeg mewn ysgolion Cyfrwng Saesneg yn cael eu hadolygu a'u cynyddu dros amser i adlewyrchu profiad newidiol o ddysgu Cymraeg wrth i'r cwricwlwm newydd cael ei gyflwyno dros amser wrth i ni weithio tuag at ein gôl o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

Gan droi at ysgolion annibynnol, mae'r deisebydd yn cydnabod nad yw ysgolion annibynnol yng Nghymru yn dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol ac felly ddim yn gorfod dysgu Cymraeg, boed yn iaith gyntaf neu yn ail iaith. Bydd y sefyllfa yma'n parhau gyda'r cwricwlwm newydd.

Mae ysgolion annibynnol yn annibynnol yn eu llywodraethiant, felly, nid oes gan Lywodraeth Cymru'r pwerau i fynnu fod dysgu Cymraeg yn ofynnol ym mhob ysgol annibynnol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Er nad yw'n ofynnol i'r ysgolion hyn ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol, mae'n rhaid i ysgolion annibynnol rhoi profiadau i'w disgyblion o'r saith maes dysgu canlynol ac mae'n rhaid yw cynlluniau gwaith ddangos sut mae pob maes yn cael eu gwneud mewn i gwricwlwm yr ysgol:

- Ieithyddiaeth
- Mathemateg
- Gwyddoniaeth
- Technoleg
- Y dyniaethau a gwyddoniaeth gymdeithasol
- Ymarfer corfforol
- Estheteg a chreadigol

Fel rhan o ieithyddiaeth gall ysgolion annibynnol ddewis ddarparu gwersi Cymraeg os y dymument, ond dewis unigol iddynt hwy yw hyn.

Hyderaf fod hyn yn egluro pethau parthed ysgolion annibynnol ac addysgu'r Gymraeg.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams', written in a cursive style.

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education